

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

*Y Maer: O Rhys Evans Mayor*



## Gwysir Cynghorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala

**Nos Iau, Ionawr 6ed 2022 am 7.00pm o'r gloch**

*Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor; gellir derbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc.*

1. **Croeso**, sylwadau'r Maer, derbyn ymddiheuriadau
2. **Buddiant:** Derbyn datganiadau buddiant
3. **Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/12/21
4. **Materion y Clerc:**
  - i. Ymateb Cyngor Gwynedd i gais am fanylion costau'r toiledau
  - ii. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr erbyn 23/2/22; nodwyd derbyn ymateb da Un Llais Cymru (atodiad)
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyn Adroddiad Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd.
6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyn adroddiad Tony Parry
7. **Partneriaeth Penllyn:** derbyn adroddiad y cynrychiolwyr
8. **Is-bwyllgorau:** Derbyn adroddiadau
  - i. **Nadolig** – derbyn adroddiad ar y gweithgareddau a'r costau
  - ii. **Cyllid** – ystyried argymhellion ar gyfer Cyllideb a Praesept 2022-23
  - iii. Ystyried argymhellion am gyfraniadau ariannol (o gyllideb diwedd Mawrth 2021)
9. **Materion Cyllid misol:** Ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, yn cynnwys
  - i. Derbyniadau: ad-daliad Y Domen (£1620) ac ad-daliad ardoll (£2925.40)
  - ii. Taliadau o dan Cytundeb: Cyflog y Clerc, PAYE, Glanhau Llochesi (Rhagfyr)
  - iii. Toiledau: ystyried gwneud y taliad o £8000

**10. Materion Cynllunio:** (*Trafodir unrhyw geisiadau cynllunio a ddaw i law rhwng cyhoeddi'r Agenda â'r Cyfarfod*)

- i. **NP5/53/570A** Adeiladu to brig dros y garej, gosod estyniad dormer ar hyd lled yr edrychiad cefn 25 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT
- ii. **NP5/53/LB301L** Adeiladu estyniad cefn unllawr Plas yn Dre, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7LU
- iii. **NP5/70/LB28** Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosd trac tren a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala.
- iv. **NP5/53/576** Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan dren a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol

**11. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

- i. Cyngor Gwynedd: rhybudd am gostau etholiad

**12. Asedau'r Cyngor:** derbyn adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr

**13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref** (*mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc*)

*Lis Paw* (Clerc)